Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom **nos Lun, 8 Mawrth 2021** am **7:45p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, Robert Owen-Ellis, a Heather Williams.

17. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr John Wynne Hughes, Jabez Oakes ac Ifan Wyn.

18. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

19. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2021 yn gywir, yn ddarostyngedig i un newid.

20. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

21. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Adroddodd y Clerc fod y penderfyniadau cynllunio isod wedi'u gwneud gan Gyngor Sir Ddinbych ers y cyfarfod blaenorol.

Clwb Pel-droed Tref Rhuthun, Caeau Chwarae Coffa, Ffordd Parc y Dre, Rhuthun – Gosod llifoleuadau - Caniatawyd

4 Tan yr Eglwys, Ffordd yr Ysgol, Rhuthun - Adnewyddu'r ffenestri a drysau pren gyda rhai UPVC gwyn yn y fflat llawr gwaelod - Caniatawyd

Castell Rhuthun, Stryd y Castell, Rhuthun – Gwaith ar goed amrywiol wedi'u cwmpasu gan Orchymyn Diogelu Coed 21 y cyn Gyngor Sir Ddinbych - Caniatawyd

Tir y tu ôl i Dŷ Cefn, Llanfwrog – Manylion deunyddau waliau a tho a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif dau caniatâd cynllunio cyfeirnod 02/2019/0183/PR – Cymeradwywyd

Tandderwen, Ffordd Cae Glas, Rhuthun - Tynnu pren marw a lleihau coron coeden dderwen - Caniatawyd

22. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.

PENDERFYNWYD: *nad oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau isod.*

02/2021/0098 - Tir yn Nhŷ'n y Minffordd, Llanfwrog, Rhuthun

Prosiect uwchraddio llinell uwchben 11KV - Llanfwrog, Clocaenog, Derwen

02/2020/1021 - 35 Y Parc, Rhuthun

Codi estyniad un llawr i'r cefn

23. GWELLA TEITHIO LLESOL YN SIR DDINBYCH

Dosbarthwyd gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor am Ymgynghoriad Map Rhwydwaith Teithio Lles Sir Ddinbych sy'n cael ei gynnal gan Sustrans Cymru mewn cydweithrediad gyda Chyngor Sir Ddinbych.

PENDERFYNWYD: *y byddai pob Cynghorydd yn darparu ymateb unigol a llunio ymateb ar ran y Pwyllgor yn dilyn hynny yn y cyfarfod nesaf.*

24. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 12 Ebrill 2021, am 7.45pm.*